



Committee of the Regions

Pwyllgor y Rhanbarthau

BUDG-V-004

8fed Cyfarfod y Comisiwn, 28 Tachwedd 2012

DRAFFT O FARN

Y Comisiwn Ad-hoc Dros Dro ar Gyllideb yr UE

**CREU SYNERGEDDAU GWELL RHWNG CYLLIDEB YR UE,
CYLLIDEBAU CENEDLAETHOL AC IS-GENEDLAETHOL**

Rapporteur: **Rhodri Glyn Thomas (DU/Y Gynghrair Ewropeidd)**

Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

FIN(4) 02-13 Paper 1 Annex

Caiff y ddogfen hon ei thrafod yng nghyfarfod y **Comisiwn ad-hoc Dros Dro ar Gyllideb yr UE** a gaiff ei gynnal **rhwng 10.30 a.m. ac 1 p.m. ddydd Mercher, 28 Tachwedd 2012**. I ganiatáu amser i'w cyfieithu, rhaid cyflwyno unrhyw welliannau drwy gyfrwng y system ar-lein ar gyfer cyflwyno gwelliannau (ar gael ym mhorthol yr Aelodau: www.cor.europa.eu/members) erbyn **hanner nos fan bellaf (amser Brwsel) ddydd Sadwrn, 18 Tachwedd 2012**. Mae canllawiau i ddefnyddwyr ar gael yn <http://toad.cor.europa.eu/CORHelp.aspx>.

CYFLWYNWYD Y DDOGFEN I'W CHYFIEITHU: 26 Hydref 2012

CDR1778-2012_00_00_TRA_PA

Dogfen gyfeirio

I. ARGYMHELLION POLISI

[SYLWCH: RYDYM WEDI YCHWANEGU'R CHWE GWELLIANT Y CYTUNWYD ARNYNT YN Y CYFARFOD AR 28 TACHWEDD - MAE'R RHAIN YN YMDDANGOS FEL 'TESTUN WEDI'I DANLINELLU' (YCHWANEGIADAU) NEU BYDD 'LLINELL DRWY'R TESTUN' (OS YW'R TESTUN GWREIDDIOL WEDI'I DDILEU)]

MAE PWYLLGOR Y RHANBARTHU

Cyflwyniad

1. yn tanlinellu mai awdurdodau lleol a rhanbarthol sy'n gyfrifol am gyfran sylweddol o wariant cyhoeddus yn Ewrop: yn 2011, roedd gwariant y sector cyhoeddus is-genedlaethol yn cyfateb i 16.7% o'r CMC ac i 34% o'r holl wariant cyhoeddus yn Ewrop (11.9% (EUR 272.2 biliwn) a 24.3%, yn ôl eu trefn, yn y sector cyhoeddus yn unig), ac yn cyfateb hefyd i oddeutu dau draean o fuddsoddiadau uniongyrchol yn Ewrop yn ystod 2011¹;
2. yn nodi bod buddsoddiadau cyhoeddus is-genedlaethol yn tueddu i grynhoi mewn nifer o sectorau allweddol â blaenoriaeth, sy'n dyngedfennol i lwyddiant strategaeth Ewrop 2020, fel materion economaidd, addysg, yr amgylchedd, tai ac amwynderau cymunedol, sy'n golygu y bydd effaith y camau cynilo (26% yn y DU, dros 30% yn Sbaen) yn cael effaith ganlyniadol ar gyflawni amcanion Ewrop 2020 (er enghraifft, mae'r gyllideb ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf wedi gostwng 42% yng Nghymru);
3. yn galw am roi mwy o flaenoriaeth wleidyddol i greu synergeddau rhwng cyllideb yr UE, cyllidebau'r aelod-wladwriaethau a'r is-wladwriaethau (awdurdodau lleol a rhanbarthol) er mwyn canolbwyntio ar roi blaenoriaethau cytunedig yr UE ar waith, yn enwedig strategaeth Ewrop 2020, gan ailadrodd casgliadau astudiaeth Senedd Ewrop 2010, sef "... the overall synergy between strategic EU policy objectives and budgetary policies is weak ... national budgets seldom refer to their contribution to achieving the objectives of the Lisbon [Europe 2020] or other EU strategies ..."²;
4. yn tanlinellu fod y camau cynilo eang, yng nghyd-destun yr argyfwng presennol, yn yr aelod-wladwriaethau a'r is-wladwriaethau, a'r pwysau enfawr y mae'r rhain yn ei roi ar wariant cyhoeddus, yn golygu bod gwella 'effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd' yr adnoddau sydd ar gael drwy eu gwneud yn fwy cydnaws yn nod gwleidyddol pwysig;
5. yn pwysleisio na ddylid defnyddio trafodaethau ynghylch 'synergeddau' fel cyfiawnhad cudd dros dorri'r Fframwaith Ariannol Amlflwydd (MFF) arfaethedig, ac na ddylid eu defnyddio

1 Dexia Crédit Ileol a CEMR (2012), cyllid cyhoeddus is-genedlaethol yn yr Undeb Ewropeaidd, Gorffennaf 2012.

2 Senedd Ewrop (2010): Creu synergedd gwell rhwng cyllideb Ewropeaidd a chyllidebau cenedlaethol (paratowyd gan Deloitte Consulting ar gais y Pwyllgor Cyllidebau). Dyfyniad o dudalen 4, y Crynodeb Gweithredol.

fel esgus i 'ailwladoli' y broses o ariannu elfennau o gyllideb yr UE (er enghraifft, y Cronfeydd Strwythurol yn yr aelod-wladwriaethau 'mwy cyfoethog') neu i gyfreithloni amodlondeb macro economaidd;

Synergeddau rhwng cyllideb yr UE a chyllidebau lleol / rhanbarthol

6. yn datgan eto mai dim ond cyfran fechan (tua 2%) o'r holl wariant cyhoeddus yn yr UE yw cyllideb yr UE ac nid yw'n ddigon, ynddi ei hun, i sicrhau'r buddsoddiadau uniongyrchol, gwerth EUR 1,800 biliwn, sydd eu hangen ar gynlluniau blaenllaw Ewrop 2020 (fel y'u nodir yn adroddiad Senedd Ewrop ar gynigion yr MFF) i ymateb i anghenion y dyfodol; mae hyn yn golygu bod angen i'r aelod-wladwriaethau a'r is-wladwriaethau fanteisio ar gyllid cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys sicrhau cyllid drwy fenthyciadau a hybu partneriaethau rhwng y sector cyhoeddus a phreifat, er mwyn cyflawni amcanion cyffredinol strategaeth Ewrop 2020;
7. yn nodi bod cyllideb yr EU a Banc Buddsoddi Ewrop, er eu bod yn gymharol fach o ran maint, yn allweddol i roi hwb i fuddsoddiadau ledled gwledydd yr UE, a hynny drwy Gronfeydd y 'Fframwaith Strategol Cyffredin' yn benodol, (ond nid dim ond drwy'r Cronfeydd hyn) sy'n cael eu cyflwyno a'u rhoi ar waith ar lefel diriogaethol (gan awdurdodau lleol a rhanbarthol yn aml), ac sy'n cael effaith pwysig fel lluosydd economaidd;
8. yn pwysleisio'r ffaith bod cyllid yr UE, a Chronfeydd y Fframwaith Strategol Cyffredin yn benodol wedi creu cyllid sefydlog a sicr i awdurdodau lleol a rhanbarthol yn ystod yr argyfwng economaidd ac, yn aml, dyma'r unig arian sydd wedi bod ar gael ar gyfer buddsoddiadau cyhoeddus a mentrau allweddol, gan fod cyllidebau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol wedi lleihau'n arw; ac mae'n tanlinellu effaith negyddol posibl yr amodoldeb macro economaidd ar sefydlogrwydd ymddangosiadol cronfeydd y Fframwaith Strategol Cyffredin;
9. yn tanlinellu trosoledd ac effaith lluosydd y buddsoddiadau hyn o ran y manteision uniongyrchol ac anuniongyrchol i'r economi leol a'r economi ehangach:
 - mae'r Comisiwn Economaidd yn amcangyfrif mai effaith trosoledd Cronfeydd Strwythurol yr UE, yn ystod cyfnod rhaglenni 2000-2006, oedd EUR 2.1 ar gyfartaledd am bob EUR 1 o gyllid yr UE a gaiff ei gyfrannu;
 - mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi gosod targed o EUR 4.2 am bob EUR 1 a gaiff ei fuddsoddi drwy'r Polisi Cydlyniant yn ystod 2014-2020;
 - mae Polisi Rhanbarthol y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol yn amcangyfrif mai 1% fydd yr effaith lluosydd drwy enillion CMC yn 2007-2013 yn Sbaen, 3% yng Ngwlad Pwyl, Slofacia a Romania, a dros 5% yng gwledydd y Baltig;
 - yn ôl amcangyfrifon eraill, bydd yr enillion o ran CMC oddeutu 8.5% yn Iwerddon a 19.6% yn Sbaen rhwng 1999 a 2010, bydd y ffigurau hyn yn gostwng oherwydd effaith yr

argyfwng. Dylid nodi hefyd fod anawsterau o ran methodoleg wrth geisio pennu effeithiau lluosydd;

10. yn datgan eto nad ariannol yn unig yw effeithiau trosoledd cronfeydd y Fframwaith Strategol Cyffredin, ond fe'u gwelir hefyd drwy drosoledd 'polisi', drwy gysoni blaenoriaethau strategol lleol a rhanbarthol â blaenoriaethau'r UE, a bod manteision eraill fel cryfhau partneriaethau ac ymwneud â gweithgareddau cydweithredol ar y cyd â gwledydd eraill, a cheir llu o enghreifftiau o arfer da ledled Ewrop;
11. yn cydnabod, fodd bynnag, fod y ffaith bod cyn lleied o'r arian hwn yn cael ei wario mewn rhannau o Ewrop yn dangos bod 'tagfeydd' yn y broses o roi'r Cronfeydd Cydlyniant a Strwythurol ar waith ar lawr gwlad. Mae'n nodi'n benodol y gwendidau a nodwyd mewn astudiaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ³ o ran trefniadau gweinyddu, capasiti a fframweithiau rheoleiddio mewn rhai aelod-wladwriaethau ac awdurdodau is-wladwriaethol, a'r angen i ymyrryd i fynd i'r afael â'r gwendidau hyn;
12. yn croesawu ymdrechion y Comisiwn Ewropeaidd i symleiddio'r rheolau ar gyfer rheoli a gweithredu prosiectau a gefnogir gan gronfeydd y Fframwaith Strategol Cyffredin, ac a ddylai helpu rhywfaint i sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio. Mae'n cydnabod bod angen sicrhau cydbwysedd rhwng dulliau effeithiol o reoli a hyblygrwydd digonol i gael gwared ar feichiau rheoleiddio diangen, ac mae'n croesawu, felly, y duedd i fabwysiadu dulliau archwilio sy'n fwy seiliedig ar risg;
13. yn galw am ragor o dryloywder mewn prosesau cyllidebol lleol a rhanbarthol a chydabod yn glir y modd y mae cronfeydd y Fframwaith Strategol Cyffredin yn cyfrannu at strategaethau buddsoddi'r rhanbarth, a dangos, mewn cyllidebau blynyddol drafft, sut y mae arian yr UE yn cael ei gynnwys wrth gynllunio'r cylch cyllidebol. Mae'n galw hefyd ar i awdurdodau lleol a rhanbarthol gyflwyno enghreifftiau o arfer da o ran y math hwn o gynllunio cyllidebau;
14. yn tynnu sylw at bryderon awdurdodau lleol ledled yr UE ynghylch y modd y gall llywodraethau aelod-wladwriaethau (a llywodraethau rhanbarthol) atal yr offerynnau cyfreithiol yn rheoliadau'r Cronfeydd Strwythurol rhag cael eu defnyddio'n llawn a, drwy hynny, atal rhannau o'r broses o weithredu'r rhaglen rhag cael eu his-ddirprwyo; mae'n galw ar i hyn gael ei unioni yn rhaglenni 2014-2020, i fanteisio i'r eithaf ar yr offerynnau newydd (fel Buddsoddiadau Tiriogaethol Integredig, Gweithrediadau Integredig, Cyd-gynlluniau Gweithredu, a Datblygiadau Lleol dan Arweiniad y Gymuned) a ragwelwyd yn Rheoliad Darpariaethau Cyffredin drafft cronfeydd y Fframwaith Strategol Cyffredin;

³ *Regulatory Capacities at Sub-National Level for the Implementation of Public Investment Strategies related to the Absorption of EU Structural Funds* gan Allio-Rodrigo Consulting ar gyfer yr OECD, Mehefin 2012.

15. yn croesawu, yn y cyswllt hwn, yr adroddiad a gynhyrchodd Derek Vaughan ASE ar ei fenter ei hun ar gyfer Pwyllgor REGI Senedd Ewrop. Adroddiad yn ymdrin â synergeddau o fewn cyllideb yr UE yw hwn, ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar gronfeydd y Fframwaith Strategol Cyffredin. Mae'n nodi â diddordeb yr enghreifftiau o fentrau sydd ar y gweill ar lawr gwlad sy'n ceisio symleiddio'r modd y caiff rhaglenni ariannu eu rhoi ar waith;
- 15.b yn cefnogi'n gryf alwad Senedd Ewrop i'r Comisiwn, yn ei benderfyniad ynghylch "Semester Ewropeaidd i gydgyssylltu polisiâu economaidd: gweithredu blaenoriaethau 2012" i "ymdrin yn llawn" yn ei Arolwg nesaf o Dwf Blynyddol "â rôl cyllideb yr UE ym mhroses y Semester Ewropeaidd drwy ddarparu data ffeithiol a phendant am yr effaith a gaiff o ran sbarduno, cynyddu, ategu a chreu synergedd mewn gwariant cyhoeddus cyffredinol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol";
16. yn croesawu trafodaeth bellach ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio fframwaith deddfwriaethol yr UE i symleiddio'r modd y caiff rhaglenni eu rhoi ar waith ar lawr gwlad, gan ganolbwyntio ar hybu prosiectau a mentrau sy'n creu 'newidiadau trawsffurfiol. Gallai hyn gynnwys ystyried y posibilrwydd o greu 'un gronfa diriogaethol' (dwyn gwahanol gronfeydd yr UE, yr aelod-wladwriaethau a'r is-wladwriaethau ynghyd) neu o greu 'siop un stop' i gael arian, ynghyd â rheolau cyson, canllawiau cynhwysfawr a chlr, a phwyslais cryfach ar sicrhau canlyniadau cynaliadwy. Byddai hyn yn golygu bod arian yn cyrraedd y defnyddiwr yn gynt a bod dulliau mwy strategol yn cael eu defnyddio i roi mentrau ar waith ar lawr gwlad. Drwy ddefnyddio'r dulliau mwy cydgysylltiedig hyn o raglennu ac o roi mentrau ar waith, gellir cyd-drefnu'n well a dyblygu llai
17. yn dadlau bod yn rhaid i drafodaethau ynghylch synergeddau rhwng cyllideb yr UE, yr aelod-wladwriaethau a'r is-wladwriaethau ymdrin hefyd â synergeddau o fewn cyllideb yr UE fel Horizon 2020, Erasmus i bawb, y Rhaglen ar gyfer Newid a Menter Gymdeithasol (PSCI), Cyfleuster Cysylltu Ewrop (CEF), COSME etc., sydd â pherthnasedd a dylanwad uniongyrchol ar 'lefel diriogaethol' ac sydd â chysylltiad clir â blaenoriaethau fel ymchwil a datblygu ac arloesedd, addysg a hyfforddiant, a chystadleurwydd BBaCh o fewn cronfeydd y Fframwaith Strategol Cyffredin;
18. yn croesawu, felly, yr ymdrechion i wella'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer 2014-2020 i hybu synergedd, er enghraifft, cynnwys Erthygl 55.8 o Reoliadau Cronfeydd y Fframwaith Strategol Cyffredin, ac yn galw am roi rhagor o gyhoeddusrwydd i brosiectau/mentrau a gaiff eu datblygu drwy ddefnyddio'r darpariaethau hyn, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r modd y gellir sicrhau synergeddau o'r fath yn ymarferol;
19. yn gofidio am ffaith bod y ddadl bresennol yn ymwneud â chryfhau undeb economaidd, ariannol a gwleidyddol yn yr Undeb Economaidd ac Ariannol a'r UE ehangach, wedi'i chyfyngu i brif sefydliadau'r UE ac i lywodraethau'r aelod-wladwriaethau, ac na roddir dim, neu fawr ddim, sylw i'r is-wladwriaethau, er gwaethaf yr effaith y gallai'r duedd i ganoli

rheolaeth fwyfwy ar lefel yr UE ei gael ar hawliau a chyfrifoldebau cyllidebol yr is-wladwriaethau ac ar ddatganoli ariannol;

20. yn gofidio hefyd am y methiant parhaus i ennyn diddordeb awdurdodau lleol a rhanbarthol ledled yr UE mewn modd ystyrllon yn y Semester Ewropeaidd, fel y gwelir yn nhrydydd Adroddiad Monitro Pwyllgor y Rhanbarthau ar Ewrop 2020, ac yn tanlinellu eto na fydd modd sicrhau synergeddau rhwng prosesau cyllidebu heb sicrhau synergeddau yn y proses o greu a monitro polisïau;

Tuag at undeb ariannol: newidiadau mewn dulliau llywodraethu economaidd a gwleidyddol

21. yn croesawu'r dadleuon sy'n mynd rhagddynt ar lefel Ewropeaidd ynghylch sut i greu undeb ariannol 'dilys' i ategu'r Undeb Economaidd ac Ariannol presennol;
22. yn nodi mai trafodaeth sy'n datblygu yw hon, ac y gallai fod â goblygiadau sylweddol o ran sut yr ymdrinnir â synergeddau rhwng cyllidebau'r UE, yr aelod-wladwriaethau ac is-wladwriaethau yn y dyfodol;
23. yn mynegi pryder ynghylch y duedd i ganoli pwerau a phenderfyniadau fwyfwy heb gynnwys awdurdodau is-wladwriaethau yn y drafodaeth, ac yn nodi bod Adroddiad y Comisiwn Ewropeaidd yn 2012 ar Gyllid Cyhoeddus yn yr Undeb Economaidd ac Ariannol yn amlygu'r ffaith bod model ariannol ffederal, sy'n datganoli'r cyfrifoldeb dros greu refeniw a dros wariant i awdurdodau'r is-wladwriaethau, yn fodel dibynadwy;
24. yn nodi bod y newidiadau yn nulliau llywodraethu economaidd yr UE (a gyflwynwyd drwy'r Semester Ewropeaidd, y Pecyn Chwech, y Cytuniad ar Sefydlogrwydd, Cydgyssylltiad a Llywodraethu, a chynigion y Pecyn Dau) wedi arwain at reolau llymach ar gyfer goruchwyllo cyllid cyhoeddus lleol a rhanbarthol yr aelod-wladwriaethau (drwy drosi'r 'rheol euraidd,' fel y'i gelwir, o lefel yr aelod-wladwriaethau i lefel yr is-wladwriaethau mewn nifer o aelod-wladwriaethau);
25. yn mynegi pryder am y penderfyniad i drosi rheolau sydd wedi'u cynnwys mewn mentrau rhynglywodraethol fel y Cytuniad ar Sefydlogrwydd, Cydgyssylltiad a Llywodraethu (neu'r Comapact Ariannol) i gyfansoddiadau neu ddeddfau cenedlaethol heb ymgynghori ymlaen llaw â Phwyllgor y Rhanbarthau ynghylch yr agweddau rhanbarthol a lleol ar y materion dan sylw, ac yn tanlinellu pa mor bwysig yw glynu wrth y dull cymunedol wrth geisio greu Undeb Ariannol;
26. yn galw, fel mater o frys, am fabwysiadu dulliau mwy tryloyw ac effeithiol o annog awdurdodau'r is-wladwriaethau sydd â phwerau cyllidebol i gymryd rhan yn y trafodaethau sydd ar y gweill yn ymwneud â'r materion hyn, ac i gynnwys Pwyllgor y Rhanbarthau'n ffurfiol yn y newidiadau posibl dilynol yn y Cytuniad;

27. yn nodi bod y camau cyntaf tuag at sicrhau undeb ariannol yn yr UE yn gwbl wahanol i'r dulliau a ddefnyddiwyd i sicrhau ffederaliaeth ariannol yn UDA. Yn wir, dewisodd UDA ddilyn llwybr sy'n golygu nad yw'r llywodraeth ffederal yn mandadu nac yn gorfodi rheolau cyllideb gytbwys yn y taleithiau (nac yn awdurdodau'r taleithiau mewn perthynas â'r rhanbarthau dinesig): cafodd y rheolau hyn eu mabwysiadu'n annibynnol ganddynt a'u rhoi ar waith yn annibynnol ar y llywodraeth ffederal wedi i honno ddatgan yn glir na fyddai'n eu hachub yn ariannol. O ganlyniad, o ystyried natur fewndarddol y broses, y llywodraeth ar y lefel dan sylw sy'n ysgwyddo'r holl gyfrifoldeb. Ar y llaw arall, yn yr UE, mae dulliau o ffrwyno dyledion yn cael eu mandadu'n ganolog a'u gorfodi gan y Llys Cyfiawnder, tra ymddengys y diystyrir a priori y posibilrwydd y bydd aelod-wladwriaeth (neu hyd yn oed ranbarth dinesig mewn aelod-wladwriaeth) yn mynd yn fethdalwr;
28. yn ystyried felly fod yr egwyddor o undod yn ganolog i undeb ariannol yr UE;
29. yn gefnogol i'r syniad o sicrhau 'cronfa hyblyg wrth gefn' yng nghyllideb yr UE. Byddai'r gronfa hon yn caniatáu i bob 'tanwariant' o dan benawdau cyllideb gael eu trosglwyddo i hybu gweithgareddau eraill yn hytrach na'u dychwelyd yn awtomatig i aelod-wladwriaethau. Mae hyn yn cyd-fynd â'r penderfyniadau a fabwysiadwyd gan Senedd Ewrop ar y Fframwaith Ariannol Amlflwydd ar 13 Mehefin a 23 Hydref 2012. Gallai offeryn o'r fath greu mwy o hyblygrwydd yng nghyllideb yr UE i ymateb i broblemau uniongyrchol, a gellid ei ddefnyddio hefyd fel sylfaen ar gyfer dull newydd o sicrhau undod ariannol fel rhan o'r undeb ariannol;
30. yn nodi, fodd bynnag, nad oes modd cael unrhyw undeb ariannol gwirioneddol heb ddiffinio hawliau a chyfrifoldebau'r gwahanol haenau o lywodraeth (ffederaliaeth ariannol), heb greu cysylltiad amlycach rhwng cysoni polisiau a phenderfyniadau cyllidebol, a gweledigaeth uchelgeisiol ynghylch sut i wella synergedd fertigol rhwng cyllideb yr UE, cyllidebau cenedlaethol a chyllidebau lleol/rhanbarthol drwy gyfrwng dulliau cydgysylltu priodol;
31. yn galw ar y Comisiwn Ewropeaidd i gyhoeddi Papur Gwyrdd yn ystod hanner cyntaf 2013 sy'n ymdrin â'r materion hyn a'r pwyntiau ychwanegol a nodir isod;

Amlinellu rhai egwyddorion sylfaenol i'w parchu wrth weithio tuag at synergeddau gwell

32. yn galw am i set sylfaenol o egwyddorion gael eu sefydlu a'u parchu wrth weithio tuag ar well synergedd rhwng cyllidebau, gan gynnwys:
- **Ymreolaeth ariannol** : bod yn glir ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r gwahanol awdurdodau cyllidebol ar lefel yr UE, yr aelod-wladwriaethau a'r is-wladwriaethau, gan gynnwys bod yn glir ynghylch rôl a rhesymwaith polisi'r UE ac ymyrraeth ariannol, a pharchu sybsidiaredd a hawliau cyllidebol awdurdodau lleol a rhanbarthol (eu rôl mewn penderfyniadau a'r gwaith craffu), hy eu hatebolrwydd democrataidd i'r cymunedau sy'n

- eu hethol, a sicrhau ymreolaeth pob haen o lywodraeth wrth iddynt bennu blaenoriaethau a gwariant;
- **Tryloywder:** sicrhau tryloywder mewn prosesau cyllidebol ym mhob haen o lywodraeth (gan gynnwys nodi ffynonellau gwariant yr UE yn glir mewn cyllidebau cenedlaethol ac is-wladwriaethol), yn ogystal â sicrhau bod data ar gael ar lefel yr UE am broffiliau gwario rhaglenni ariannu'r UE ar lefel ranbarthol (os yw hynny'n bosibl);
 - **Symleiddio prosesau :** esbonio sut y mae blaenoriaethau a chyllid yn cael eu cysoni ar lefel yr UE, yr aelod-wladwriaethau a'r is-wladwriaethau â blaenoriaethau cytunedig yr UE, gan ymrwymo i weithio tuag at oresgyn 'tagfeydd' (ym maes gweinyddu, rheoleiddio a symleiddio gwleidyddol) i sicrhau gwell synergeddau rhwng cyllidebau/polisiau, ac osgoi creu beichiau gweinyddol ychwanegol;
 - **Partneriaeth:** ymrwymo i 'weithio mewn partneriaeth' gan dderbyn bod partneriaeth gytbwys rhwng y gwahanol haenau o lywodraeth (yr UE, aelod-wladwriaethau ac is-wladwriaethau) gan ddefnyddio dulliau ffurfiol ac anffurfiol sy'n hybu cydweithrediad, gan gynnwys, er enghraifft, y drafodaeth bresennol rhwng Senedd Ewrop a Seneddau'r aelod-wladwriaethau i gynnwys cynrychiolwyr o ddeddfwrfeydd yr is-wladwriaethau;
33. deall mai prif rôl Cyllideb yr UE (ar hyn o bryd) yw: (i) ariannu polisiau cyffredin craidd yr UE, fel amaethyddiaeth a physgodfeydd (ii) helpu i hyrwyddo amcanion a nodau polisi eraill yr UE o dan gymwyseddau cyffredin gyda'r aelod-wladwriaethau, drwy fuddsoddiadau sy'n canolbwyntio ar y tymor canolig. Mae camau o'r fath wedi'u seilio ymhellach ar syniadau sydd wedi'u hen sefydlu, sef (a) gwerth ychwanegol y camau y bydd yr UE yn eu cymryd i ymyrryd, (b) ychwanegoldeb yn y gweithgareddau a gefnogir, (c) ac effaith trosoli ac effaith lluosydd y camau y bydd yr UE yn eu cymryd i ymyrryd;
34. yn croesawu trafodaethau ac esboniadau ychwanegol ynghylch y goblygiadau posibl sydd ynghlwm wrth ddatblygiadau o'r fath o ran rôl ymyriadau'r UE a'r rhesymwaith y tu ôl iddynt, a'u perthynas â phrosesau cyllidebol yr aelod-wladwriaethau a'r is-wladwriaethau, a hynny yng nghyd-destun datblygiadau yn y dadleuon ynghylch cryfhau'r undeb economaidd, ariannol a chyllidol.
35. yn credu y byddai mwy o gydgysylltiad fertigol mewn polisiau cyllidebol yn creu synergeddau gwell, os yw'n parchu ac yn cryfhau sybsidiaredd, ychwanegoldeb, gwerth ychwanegol Ewropeaidd a manteision darbodion maint⁴. Gan hynny, mae'n gwbl gydnaws ag egwyddor sybsidiaredd sydd wedi'i ymgorffori yng nghytuniadau'r UE;

Ffactorau sy'n ein rhwystro rhag sicrhau synergedd fertigol gwell

36. yn tanlinellu pwysigrwydd cael data dibynadwy a manwl gywir ar lefel yr UE yn ymwneud ag arian cyhoeddus a phrosesau cyllidebol hyd at lefel yr is aelod-wladwriaethau;

4

Astudiaeth Senedd Ewrop (2010): Creu synergeddau gwell rhwng cyllidebau Ewropeaidd a chyllidebau cenedlaethol.

37. yn nodi cymhlethdod yr her o greu synergeddau oherwydd natur 'heterogenaidd' strwythurau'r is-wladwriaethau ledled yr UE;
38. yn croesawu'r penderfyniad i gynnwys, am y tro cyntaf, bennod benodol ar Ddatganoli Cyllidol yn yr UE yn yr adroddiad a baratowyd gan y Comisiwn Ewropeaidd yn 2012 ar Gyllid Cyhoeddus yr EMU, ac yn galw ar y Comisiwn Ewropeaidd i gynnwys pennod o'r fath am gyflwr cyllid cyhoeddus yr is-wladwriaethau mewn datganiadau bob blwyddyn yn y dyfodol;
39. yn croesawu astudiaethau ymchwil eraill i ystyried cyllid cyhoeddus a'r gallu i fuddsoddi arian cyhoeddus, ac effaith yr argyfwng cymdeithasol, economaidd a chyllidol ar yr is-wladwriaethau, ac adroddiad DEXIA Crédit Local (DCL)/CEMR ac astudiaethau gan yr OECD yn benodol;
40. yn nodi prinder cymharol y wybodaeth sydd ar gael am arian cyhoeddus lleol a rhanbarthol ledled yr UE ac, yn fwy cyffredinol, prinder y wybodaeth sydd ar gael am synergeddau rhwng cyllid yr UE, yr aelod-wladwriaethau a'r is-wladwriaethau;
41. yn galw ar y Comisiwn Ewropeaidd i ymgymryd â rhagor o waith i fynd i'r afael â'r prinder hwn ac yn awgrymu y dylid creu rhwydwaith o brifysgolion Ewropeaidd i wneud gwaith ymchwil, i ddatblygu arbenigedd yn y maes pwysig hwn;
42. yn cydnabod bod nifer o dagfeydd eraill o ran gweithdrefnau a chylchoedd cyllidebol yn yr UE, sy'n gwaethygu oherwydd natur heterogenaidd prosesau cyllidebol yr is-wladwriaethau. Nid yw cylchoedd cyllidebol yr aelod-wladwriaethau a'r is-wladwriaethau'n cyd-fynd â chylch cyllidebol yr UE (sy'n gweithredu'n ôl blynnyddoedd calendr) ac, at hyn, mae cyllidebau lleol a rhanbarthol wedi'u seilio'n bennaf ar gylchoedd blynnyddol yn hytrach na chynlluniau amlflwydd (sy'n nodweddiadol o fframwaith cyllideb yr UE);
43. yn galw ar y Comisiwn Ewropeaidd i ystyried rhinweddau ac ymarferoldeb (yn ogystal â phroblemau/costau gweinyddol posibl) sicrhau mwy o gysondeb mewn cylchoedd cyllideb o fewn yr UE, ac i annog is-wladwriaethau i ddefnyddio fframweithiau cyllideb tymor canolig (yn unol â'r mesurau a gyflwynwyd yn y 'pecyn chwech'), gan gynnwys esbonio sut y gallai hyn weithio fel rhan o gylchoedd y Semester Ewropeaidd blynnyddol;
44. yn nodi'r trafodaethau sydd ar y gweill ynghylch y cynigion i greu system Ewropeaidd ar gyfer cyfrifon cenedlaethol a rhanbarthol yn yr UE (COM(2010) 774 final) ac yn gofidio am y ffaith nad oes modd cymharu cyllidebau lleol a rhanbarthol ledled yr UE (o ran eu strwythur, eu darllenadwyedd a'u cynnwys) ac am y diffyg cysondeb ar lefel yr UE, sy'n ei gwneud yn anodd cymharu a dadansoddi'n ystyrlon;
45. yn nodi bod Erthygl 3 o Gyfarwyddeb 2011/85/EU (rhan o'r 'pecyn chwech') yn mandadu MS i weithredu safon ESA 95 yn eu systemau cenedlaethol o gyfrifyddu cyhoeddus ac i

sicrhau bod data cyllidol ar gael yn amserol ac yn rheolaidd i bob is-sector o lywodraeth gyffredinol; yn gofyn am wybodaeth sy'n egluro a yw'r agweddau lleol/rhanbarthol ar bolisi buddsoddi'r UE a/neu'r effaith ariannol ar awdurdodau'r is-wladwriaethau (ee costau casglu data) wedi'u hystyried yn ddigonol yn y cyd-destun hwn;

46. yn tynnu sylw at yr angen i wella safon ESA 95 o bosibl ar gyfer awdurdodau lleol a rhanbarthol o ran costau benthycyca. Yn wir, mae dull cyfrifyddu ESA 95 yn trin gweithrediadau ariannol (ac felly benthycyca) yn wahanol ac yn cosbi awdurdodau lleol a rhanbarthol sy'n dymuno buddsoddi i geisio sicrhau cydbwysedd yn eu cyllidebau. O dan fframwaith ESA 95, dim ond gweithrediadau yn ystod y flwyddyn ariannol dan sylw gaiff eu hystyried, ac nid yw hynny'n caniatáu i awdurdodau lleol na rhanbarthol wrthbwysu unrhyw ddifyg dros dro sy'n gysylltiedig â buddsoddi drwy ddefnyddio arian wrth gefn neu warged a ddygwyd ymlaen. Er mwyn sicrhau canlyniadau cyfatebol yn eu fframwaith cyfrifyddu, byddai'n rhaid i'r awdurdodau lleol a rhanbarthol hyn ariannu eu buddsoddiadau'n llawn gan ddefnyddio'u cyllid eu hunain;
47. yn nodi bod yr aelod-wladwriaethau hynny sydd wedi integreiddio awdurdodau lleol a rhanbarthol yn ffurfiol yn y broses gyllidebu (cytundeb sefydlogrwydd mewnol ee yng Ngwlad Belg, Sbaen neu Awstria) yn gyffredinol wedi darparu dulliau o greu mwy o hyblygrwydd yn safonau ESA 95 fel bod ganddynt fwy o bosibiliadau buddsoddi. Gall y rhain amrywio o ran natur, er enghraifft, addasiad amlflwydd yn amcanion y gyllideb neu systemau i'w heithrio'n rhannol rhag amcanion gwariant buddsoddi er mwyn ystyried y cylch buddsoddi;
48. yn galw felly am i'r broblem hon gael ei datrys ar lefel yr UE drwy gysoni rheolau i greu mwy o hyblygrwydd yn safonau ESA 95 a chaniatáu i awdurdodau lleol a rhanbarthol fuddsoddi yn y modd hwn;
49. yn galw am ddefnyddio dulliau ariannu arloesol yn amlach, fel benthyciadau a 'chronfeydd cylchol', ac yn nodi hefyd y cyfleoedd a gynigir gan bartneriaethau rhwng y sectorau preifat a chyhoeddus, a Banc Buddsoddi Ewrop, i ysgogi buddsoddiadau creadigol ac arloesol ar lefel diriogaethol, ac yn croesawu mesurau yng nghyfnod rhaglennu 2014-2020, gan gynnwys Cronfeydd y Fframwaith Strategol Cyffredin, sy'n hyrwyddo'r gweithgareddau hyn ymhellach;
50. yn nodi bod y gallu i fanteisio ar farchnadoedd ariannol yn amrywio'n eang ledled yr UE ac nad yw wedi'i ddatblygu'n dda mewn ambell ran o Ewrop ar gyfer awdurdodau lleol a rhanbarthol, felly, byddai eymorth ar lefel yr UE i helpu i fynd i'r afael â hyn i'w groesawu mae angen mynd i'r afael â hyn ar lefel yr UE;
51. yn edrych ymlaen at drafod ymhellach y posibilrwydd y gall offerynnau arloesol eraill ar lefel yr UE ysgogi buddsoddiadau a hybu undod i helpu i godi Ewrop o'r argyfwng, gan gynnwys Bondiau Prosiect yr UE a'r Eurobond.

Brwsel

II) GWEITHDREFN

Teitl:	Creu synergeddau rhwng cyllidebau'r UE, cyllidebau cenedlaethol ac is-genedlaethol
Y sail gyfreithiol	Art. 307 (4) TFEU
Y sail weithdrefnol	Rheol 42 o Reolau'r Weithdrefn
Dyddiad penderfyniad y Bureau	17 Gorffennaf 2012
Y Comisiwn sydd â chyfrifoldeb	Y Comisiwn ad-hoc dros dro ar gyllideb yr UE
Rapporteur	Rhodri Glyn Thomas (DU/Y Gynghrair Ewropeaidd) Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru
Dadansoddiad	5 Hydref 2012
Trafodwyd yn y comisiwn	Gwelwyd ymlaen llaw ar 28 Tachwedd 2012
Dyddiad y'i mabwysiadwyd gan y comisiwn	Gwelwyd ymlaen llaw ar 28 Tachwedd 2012
Canlyniad y bleidlais yn y comisiwn	-
Dyddiad y'i mabwysiadwyd yn y cyfarfod llawn	Gwelir ymlaen llaw ar 31 Ionawr neu 1 Chwefror 2013
Barnau blaenorol y Pwyllgor	<ul style="list-style-type: none"> - Penderfyniad Pwyllgor y Rhanbarthau ar ei flaenoriaethau gwleidyddol ar gyfer 2013, CdR 1031/2012 fin - Penderfyniad Pwyllgor y Rhanbarthau ar Cyngor Ewropeaidd y Gwanwyn ac ar y Cytuniad Arfaethedig ar Sefydlogrwydd, Cydgysylltu a Llywodraethu yn yr EMU, CdR 42/2012 fin - Barn Pwyllgor y Rhanbarthau am Feithrin Diwylliant o Lywodraethu Aml-haen, CdR 273/2012 fin - Penderfyniad Pwyllgor y Rhanbarthau ar ei flaenoriaethau gwleidyddol ar gyfer 2012, CdR 361/2011 fin - Barn Pwyllgor y Rhanbarthau ynghylch pa mor gydnaws yw ymyriadau cenedlaethol ac ymyriadau'r UE i geisio lleihau'r gwahaniaethau mewn twf economaidd a chymdeithasol, CdR 167/2011 fin - Barn Pwyllgor y Rhanbarthau am rôl awdurdodau lleol a rhanbarthol wrth geisio cyflawni amcanion Strategaeth Ewrop 2020 , CdR 72/2011 fin